

## **Arolygiad Ysbyty Dilynol (Dirybudd)**

### **Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg Ysbyty Tywysoges Cymru, Ward 10 a'r Adran Achosion Brys**

Dyddiad yr Arolygiad: 17 a 18  
Ionawr 2017

Dyddiad Cyhoeddi: 19 Ebrill

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb .....	4
4.	Canfyddiadau .....	6
	Ansawdd profiad y claf .....	6
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .....	14
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	25
5.	Y Camau Nesaf.....	28
6.	Methodoleg .....	29
	Atodiad A.....	31

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol o'r holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad dirybudd o Ysbyty Tywysoges Cymru, Pen-y-bont ar Ogwr, ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ar 17 a 18 Ionawr 2017. Ymwelwyd â'r wardiau/adrannau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward 10 (Trawma ac Orthopedig)
- Yr Adran Achosion Brys

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau reolwr arolygu (arweiniwyd yr arolygiad gan un ohonynt), un adolygydd cymheiriaid ac un adolygydd lleyg. Hefyd yn bresennol roedd dau o aelodau staff AGIC ac un aelod o staff allanol, a oedd yn arsylwi'r broses arolygu.

Mae rhagor o fanylion am sut y mae AGIC yn arolygu gwasanaethau ysbytai'r GIG ar gael yn Adran 6.

## 2. Cyd-destun

Ffurfiwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ar 1 Hydref o ganlyniad i ad-drefnu o fewn y GIG yng Nghymru ac mae'n cynnwys y Byrddau Iechyd Lleol (BILI) blaenorol ar gyfer Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr yn ogystal ag Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Mae'r bwrdd iechyd yn gwasanaethu poblogaeth o tua 500,000 o bobl.

Ceir pedwar ysbyty aciwt yn y bwrdd iechyd sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau: Ysbyty Singleton ac Ysbyty Treforys yn Abertawe, Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ym Mhort Talbot, ac Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr yw'r rhain. Ceir nifer o ysbytai cymunedol llai a chanolfannau adnoddau gofal sylfaenol sy'n darparu gwasanaethau clinigol y tu allan i'r pedwar prif leoliad ysbyty aciwt.

### **Ysbyty Tywysoges Cymru**

Ysbyty cyffredinol dosbarth yw Ysbyty Tywysoges Cymru, wedi'i leoli ar gyrion Pen-y-bont ar Ogwr yn ne Cymru. Mae'n darparu amrywiaeth o lawdriniaeth a meddyginiaeth aciwt i gleifion o bob oed, gan gynnwys gwasanaethau cleifion mewnol, cleifion allanol a dydd.

Ward 29 gwely yw Ward 10, sy'n arbenigo mewn trawma a llawfeddygaeth orthopedig. Caiff cleifion eu derbyn i'r ward drwy'r Adran Achosion Brys fel rheol, yn hytrach na fel derbyniadau a drefnwyd.

Mae'r Adran Achosion Brys ar agor 24 awr y diwrnod, 365 diwrnod y flwyddyn ac yn derbyn cleifion trwy alwadau 999 brys ac atgyfeiriadau gan feddygon teulu yn ogystal â'r cleifion hynny sy'n hunangyflwyno. Mae'r adran yn ffrydio cleifion pan fyddant yn cyrraedd i fân achosion neu achosion difrifol (gan gynnwys dadebru) yn dibynnu ar eu cyflyrau ymddangosol.

### 3. Crynodeb

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru arolygiadau urddas a gofal hanfodol dirybudd â Ward 9<sup>1</sup> a'r Adran Achosion Brys<sup>2</sup> ym mis Hydref 2014 a mis Chwefror 2015 yn eu trefn. Prif ddiben yr arolygiad diweddar hwn oedd gwneud gwaith dilynol ar gynnydd y bwrdd iechyd o ran mynd i'r afael â'r gwelliannau a oedd yn angenrheidiol o'n harolygiadau blaenorol.

Y tro hwn, dewiswyd arolygu Ward 10, sydd hefyd yn ward trawma ac orthopedig, yn hytrach na Ward 9. Roedd hyn er mwyn darganfod pa un a oedd camau gwella a ddisgrifiwyd gan y bwrdd iechyd mewn ymateb i'n gweithgarwch arolygu blaenorol wedi cael eu cymryd ar draws yr arbenigedd trawma ac orthopedeg.

Canfuwyd gennym mai prin fu'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni camau gwella ar Ward 10. Yn yr Adran Achosion Brys, roedd yn braf gweld bod camau gwella wedi cael eu cymryd a'u cynnal i fynd i'r afael â llawer o'r gwelliannau a oedd yn angenrheidiol yn ein harolygiad diwethaf. Fodd bynnag, roedd rhai meysydd lle nad oedd gwaith wedi cael ei ddatblygu a bod angen gwella o hyd.

Yn gyffredinol, canfuwyd tystiolaeth gennym fod y timau staff sy'n gweithio ar Ward 10 ac yn yr Adran Achosion Brys yn darparu gofal a oedd yn ddiogel ac yn effeithiol.

Dyma a ganfuwyd gennym fod y bwrdd iechyd yn ei wneud yn dda:

- Ar y cyfan, roedd y cleifion a wnaeth sylwadau ar eu profiadau yn hapus gyda'r gofal yr oeddent wedi ei dderbyn.
- Canfuwyd gennym y gallai cleifion a'u gofalwyr gynnig adborth ar eu profiadau mewn amrywiaeth o ffyrdd.

---

<sup>1</sup> <http://gov.wales/docs/hiw/inspectionreports/DECI%20Report%20-%20Princess%20of%20Wales%20Hospital%20-%202017,%202018%20October%202014.pdf>

<sup>2</sup>

<http://gov.wales/docs/hiw/inspectionreports/Dignity%20and%20Essential%20Care%20Inspection%20report%20-%20Princess%20of%20Wales%20Hospital%20-%202017%20and%202018%20February%202015.pdf>

- Roedd trefniadau ar waith i leihau croes-heintio ac roedd y staff yn cydymffurfio â gweithdrefnau croes-heintio. Roedd hyn yn arbennig o amlwg ar Ward 10.
- Roedd staff ar bob lefel yn dangos parodrwydd i ddysgu o'r arolygiad ac i wneud gwelliannau yn ôl yr angen.

Dyma'r hyn yr ydym yn argymhell y gallai'r bwrdd iechyd ei wella:

- Y trefniadau ar gyfer hybu preifatrwydd ac urddas y cleifion
- Prydlondeb ymateb i geisiadau cleifion ar Ward 10 a llif cleifion drwy'r Adran Achosion Brys
- Cyfleusterau ar gyfer storio offer ar Ward 10
- Diogelwch yr Adran Achosion Brys
- Cwblhau cofnodion monitro cleifion ar Ward 10
- Agweddau ar reoli meddyginiaethau ar Ward 10
- Cwblhau asesiadau risg thromboproffylaxis

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd profiad y claf*

Ar y cyfan, dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon gyda'r gofal yr oeddent wedi ei dderbyn. Gwelsom y staff yn bod yn garedig tuag at gleifion ac yn eu trin gyda chwarteisi a pharch.

Gwelsom fod cleifion yn derbyn gofal mewn cilfannau rhywiau cymysg ar Ward 10. Roedd staff y ward a staff uwch yr ysbyty yn cydnabod nad oedd hyn yn dderbyniol ac fe'i gwnaed yn ofynnol gennym i drefniadau gael eu gwneud i sicrhau nad oedd cleifion yn cael eu derbyn i gilfannau rhywiau cymysg. Dywedodd cleifion wrthym fod rhaid iddynt aros i gael eu helpu gan y staff weithiau ac roeddent yn teimlo bod hyn gan nad oedd digon o staff yn gweithio ar y ward.

Yn yr Adran Achosion Brys, gwelsom fod cleifion yn aros mewn manau na fwriadwyd ar gyfer darparu gofal a thriniaeth. Gwelsom fod gwelliannau wedi cael eu gwneud ers ein harolygiad diwethaf i hybu preifatrwydd ac urddas y cleifion. Fodd bynnag, roedd anawsterau gyda llif cleifion drwy'r adran yn achosi anawsterau i'r staff o ran hybu preifatrwydd ac urddas cleifion. Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch faint o amser yr oeddent wedi bod yn aros i gael eu gweld gan feddyg.

Canfuwyd gennym y gallai cleifion a'u gofalwyr ddarparu adborth ar eu profiadau mewn amrywiaeth o ffyrdd.

### Gofal gydag urddas

#### **Safon 4.1 Gofal gydag urddas**

*Mae profiad pobl o ofal iechyd yn un lle mae pawb yn cael ei drin ag urddas, parch, tosturi a charedigrwydd ac sy'n cydnabod ac yn diwallu anghenion corfforol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac ysbrydol unigolion.*

Cwblhawyd a dychwelyd cyfanswm o 20 o holiaduron i ni yn ystod yr arolygiad. Derbyniwyd holiaduron wedi'u cwblhau gennym gan gleifion neu eu hymwelwyr o Ward 10 a'r Adran Achosion Brys.

Roedd y sylwadau a dderbyniwyd gennym yn dangos bod cleifion yn teimlo:



- bod y staff wedi bod yn foesgar â nhw a'u ffrindiau/teuluoedd bob amser, ac wedi eu hannerch gan ddefnyddio eu dewis o enw
- bod y staff wedi siarad â nhw am eu cyflyrau meddygol a'u helpu i'w deall
- bod y staff wedi gwranddo arnynt
- bod y staff wedi bod yn garedig ac yn sensitif wrth ddarparu gofal.

Gwelsom hefyd, trwy gydol ein harolygiad, staff yn bod yn garedig tuag at gleifion a'u hymwelwyr ac yn eu trin gyda pharch, cwртеisi a moesgarwch.

### Ward 10

Roedd 29 gwely ar y ward, wedi eu trefnu ar draws pedwar cilfan gwelyau lluosog a phedwar ciwbicl sengl. Gwelsom fod dau o'r cilfannau wedi'u neilltuo'n fannau un rhyw. Gwelsom hefyd staff yn cau llenni o amgylch gwelyau ac yn cau drysau i giwbiclau. Roedd hyn yn helpu i hybu preifatrwydd ac urddas cleifion, yn enwedig wrth gynorthwyo cleifion gyda gofal personol.

Gwelsom fod y ddau gilfan a oedd yn weddill yn fannau rhywiau cymysg, â chleifion gwrywaidd a benywaidd. Fe'n hysbyswyd bod y cilfannau ar y ward wedi cael eu defnyddio fel mannau rhywiau cymysg ers mis Rhagfyr. Trafodwyd hyn gyda staff uwch yr ysbyty a staff y ward. Cydnabuwyd ganddynt fod hyn yn peri heriau i staff y ward gynnal preifatrwydd ac urddas cleifion. Fe'n hysbyswyd ganddynt fod hyn o ganlyniad i niferoedd sylweddol o dderbyniadau cleifion i'r ysbyty ac nad oedd yn drefniant parhaol. Cadarnhaodd staff uwch yr ysbyty fod penderfyniadau i dderbyn cleifion i gilfan rhywiau cymysg yn cael eu gwneud dim ond yn dilyn asesiad risg priodol ac mewn cytundeb â'r cleifion. Roedd hyn er mwyn hybu diogelwch cleifion ac i sicrhau bod cleifion yn cael eu derbyn i'r ward fwyaf priodol yn dibynnu ar eu hanghenion gofal a aseswyd. Fodd bynnag, dynododd sgysiau gyda staff y ward nad oeddent yn ymwybodol o'r broses hon. Cadarnhaodd staff y ward y byddai ymdrechion yn cael eu gwneud bob amser i symud cleifion i fannau un rhyw cyn gynted â phosibl.

Yn ystod ein harolygiad, cadarnhaodd staff uwch yr ysbyty fod camau'n cael eu cymryd i symud y cleifion hynny a effeithiwyd i fannau un rhyw mwy priodol.

Er bod AGIC yn cydnabod y rhesymau a ddarparwyd gan staff uwch yr ysbyty am y trefniant dros dro hwn, nid yw gofalu am gleifion mewn mannau rhywiau cymysg yn briodol. Nid yw'n cyd-fynd â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru chwaith.

Cadarnhaodd staff uwch y byddai ffurflen ddigwyddiad electronig yn cael ei chwblhau at ddibenion adrodd a monitro digwyddiadau o'r fath. Fodd bynnag,

dywedodd staff y ward wrthym na fyddent yn cwblhau'r ffurflen hon fel mater o drefn pan fo claf yn cael ei dderbyn i fan rhywiau cymysg. Roedd hyn yn golygu efallai nad yw'r bwrdd iechyd yn gwbl ymwybodol o nifer y cleifion dan sylw a'r camau a gymerwyd ar unwaith i ddatrys digwyddiadau unigol. Hefyd, efallai na fydd diffyg adrodd yn adlewyrchu'r broblem yn llawn fel y gellir cymryd camau hirdymor er mwyn helpu i wneud gwelliannau yn hyn o beth.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd:***

- ***wneud trefniadau priodol i sicrhau nad yw cleifion yn cael eu derbyn i fannau rhywiau cymysg***
- ***sicrhau bod y staff yn dilyn polisi hysbysu am ddigwyddiadau'r bwrdd iechyd***

Yn ein harolygiad diwethaf o'r ward orthopedig drws nesaf, nodwyd gennym nad oedd arwyddion preifatrwydd yn cael eu defnyddio i ddynodi pan fo toiledau'n cael eu defnyddio. Byddai'r defnydd o arwyddion eglur yn helpu i hybu preifatrwydd ac urddas cleifion ac yn diogelu cleifion rhag amlygiad diangen.

Gwelsom nad oedd y toiledau a'r cyfleusterau ymolchi ar Ward 10 wedi eu neilltuo fel cyfleusterau un rhyw. Er bod cloeon syml ar y drws (ac arwydd bach i ddangos bod y cyfleusterau'n cael eu defnyddio), canfuwyd gennym nad oedd y rhain yn cael eu defnyddio i atal staff neu gleifion rhag agor y drysau heb feddwl. Gallai hyn gynyddu'r tebygolrwydd o amlygiad diangen.

Mewn ymateb i'n harolygiad blaenorol, cadarnhaodd y bwrdd iechyd fod arwyddion wedi cael eu gwneud a'u bod yn cael eu profi. Gwelsom yn ystod yr arolygiad diweddar hwn nad oedd arwyddion preifatrwydd yn cael eu defnyddio ac ni roddwyd rheswm boddhaol am hyn.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau i ddiogelu cleifion sy'n defnyddio'r toiled a chyfleusterau ymolchi rhag amlygiad diangen.***

Yr Adran Achosion Brys

Roedd nifer o fannau asesu a thriniaeth yn yr adran, gan gynnwys ystafell ddadebru, cilfan achosion difrifol, ciwbiclau mân achosion ac ystafell brysbennu. Gwelsom staff yn cau llenni i gynnal preifatrwydd ac urddas cleifion.

Ar adegau o bwysau ar yr adran, roedd mannau nad ydynt ar gyfer triniaeth hefyd yn cael eu defnyddio ar gyfer cleifion. Yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod cleifion mewn mannau nad oeddent wedi'u neilltuo fel mannau triniaeth. Roedd hyn yn peri heriau amlwg i'r staff hybu preifatrwydd ac urddas y cleifion. Gwelsom fod y staff yn gwneud ymdrechion i ddiogelu preifatrwydd ac urddas cleifion trwy ddefnyddio sgriniau cludadwy.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau i sicrhau y gall cleifion aros a derbyn gofal mewn mannau priodol i hybu eu preifatrwydd, eu hurddas a'u diogelwch.***

Yn ein harolygiad diwethaf o'r Adran Achosion Brys, nodwyd gennym fod angen gwelliant i sicrhau bod preifatrwydd cleifion yn cael ei gynnal. Mewn ymateb i'n harolygiad blaenorol, disgrifiodd y bwrdd iechyd gamau i fynd i'r afael â hyn. Gwelsom fod llenni ciwbicl newydd yn cael eu defnyddio, a oedd yn cynnwys hysbysiadau preifatrwydd, a chawsom ein sicrhau bod y staff wedi cael eu hatgoffa am yr angen i hybu preifatrwydd yn ystod yr asesiad brysbennu. Er bod addasiadau arfaethedig i'r dderbynfa wedi cael eu disgrifio'n flaenorol, nid oedd y gwaith hwn wedi cael ei wneud.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r bwrdd iechyd ymchwilio a chyflwyno ffyrdd o wella lefel y preifatrwydd i gleifion sy'n mewngofnodi yn nerbynfa'r Adran Achosion Brys.***

#### ***Safon 4.2 Gwybodaeth ar gyfer cleifion***

*Rhaid i bobl gael gwybodaeth lawn am eu gofal a honno'n hygyrch, yn ddealladwy, ac mewn iaith a dull sy'n ystyriol o'u hanghenion i'w galluogi a'u helpu i wneud penderfyniad gwybodus am eu gofal fel partner cyfartal.*

#### ***Safon 3.2 Cyfathrebu'n effeithiol***

*Wrth gyfathrebu gyda phobl, mae gwasanaethau iechyd yn diwallu anghenion unigolion o ran iaith a chyfathrebu mewn modd rhagweithiol.*

#### **Ward 10**

Gwelsom fod arwyddion lluniau wedi'u harddangos i helpu'r cleifion i ddod o hyd i doiledau a chyfleusterau ymolchi ar y ward. Hefyd, roedd gwybodaeth

gyffredinol am y ward wedi'i harddangos i'r cleifion ac ymwelwyr ei gweld – er enghraifft, gwybodaeth am drefniadau ymweld, gwisgoedd cod lliw staff yr ysbyty, sut i leihau briwiau pwyso, cwmpau, a chroes-heintio. Roedd rhywfaint o wybodaeth wedi'i harddangos yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Gofynnwyd i'r staff am gymorth a chymhorthion arbenigol sydd ar gael ar y ward i'r cleifion hynny ag anghenion cyfathrebu. Fe'n hysbyswyd nad oedd Braille, iaith arwyddion a chymhorthion fel dolen sain ar gael.

Dywedodd yr holl gleifion neu ymwelwyr i ni siarad â nhw eu bod wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am ofal a thriniaeth y cleifion a bod y staff wedi esbonio pethau iddynt.

### Yr Adran Achosion Brys

Gwelsom fod arwyddion wedi'u harddangos yn yr adran i helpu cleifion i ddod o hyd i'w ffordd o gwmpas. Hefyd, roedd hysbysfyrddau a sgrin electronig yn arddangos gwybodaeth gyffredinol am yr adran. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth i gleifion am y system brysbennu a blaenoriaethu cleifion. Nid oedd gwybodaeth i gleifion am ba mor hir y gallai fod rhaid iddynt aros cyn cael eu gweld gan feddyg wedi'i harddangos. Dywedwyd wrthym fod hyn gan fod cleifion yn cael eu gweld ar sail blaenoriaeth, yn ôl eu hanghenion gofal a thriniaeth a aseswyd. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd y byddai staff y dderbynfa yn hysbysu cleifion am amseroedd amser rhagweledig pan fyddant yn cyrraedd a bod trefniadau ar waith i staff nyrsio ddiweddarau staff y dderbynfa am amseroedd aros. Efallai yr hoffai'r bwrdd iechyd ystyried pa un a ellir darparu'r wybodaeth hon i gleifion yn fwy effeithlon fel nad oes rhaid i gleifion ddychwelyd i ddesg y dderbynfa i wneud ymholiadau.

Cawsom sgwrs gydag un claf a dywedwyd wrthym fod y staff wedi diweddarau'r claf yn dda am yr hyn a oedd yn digwydd, gan esbonio'n eglur y gofal a'r driniaeth a roddwyd a'r hyn a gynigiwyd.

Yn ein harolygiad diwethaf o'r Adran Achosion Brys, nodwyd gennym fod angen gwelliannau o ran cyfathrebu â chleifion. Mewn ymateb i'n harolygiad diwethaf, disgrifiodd y bwrdd iechyd gamau i fynd i'r afael â hyn. Roedd yn braf gweld bod dolen sain a oedd yn gweithio ar gael yn y dderbynfa ac fe'n hysbyswyd bod gwybodaeth i staff am sut i gael mynediad at gyfieithwyr ar y pryd wedi cael ei gwella a'i hychwanegu at system fewnrwyd y bwrdd iechyd. Fe'n hysbyswyd bod un aelod o staff wedi'i hyfforddi i ddefnyddio iaith Arwyddion Prydain a bod aelod arall o staff wedi mynegi diddordeb mewn derbyn hyfforddiant. Nid oedd unrhyw gyfleusterau ar gyfer Braille.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r bwrdd iechyd barhau gyda threfniadau i gynorthwyo'r staff i fynychu hyfforddiant ar ddefnyddio iaith arwyddion a chyflwyno trefniadau i gynorthwyo ymhellach y cleifion hynny ag anghenion ychwanegol i dderbyn gwybodaeth ac ymateb iddi.***

### **Gofal amserol**

#### ***Safon 5.1 Mynediad amserol***

*Mae pob agwedd ar ofal yn cael ei darparu mewn ffordd amserol gan sicrhau bod pobl yn cael eu trin ac yn cael gofal yn y ffordd gywir, yn y lle cywir a chyda'r staff cywir.*

### **Ward 10**

Gwelsom staff yn rhoi llawer o sylw i gleifion ac yn ymateb i'w ceisiadau am gymorth. Dywedodd dau glaf i ni siarad â nhw y bu'n rhaid iddynt aros i'r staff ateb eu seinyddion. Roedd y cleifion yn teimlo bod hyn gan nad oedd digon o staff yn gweithio ar y ward.

Dyweddodd y staff wrthym hefyd bod oedi weithiau cyn rhoi sylw i gleifion ac roeddent yn teimlo bod angen mwy o staff. Hefyd, fe'n hysbyswyd bod polisi'r bwrdd iechyd sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddwy nyrs roi meddyginiaeth lleddfu poen benodol (am resymau diogelwch cleifion) weithiau'n achosi oedi cyn i gleifion allu derbyn eu ffisiotherapi.

Hysbyswyd rheolwyr uwch yr ysbyty am hyn a chytunasant i gymryd camau ar sail ein canfyddiadau i sicrhau bod anghenion cleifion yn cael eu diwallu.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd archwilio'r rhesymau pam nad yw anghenion gofal cleifion bob amser yn cael eu diwallu'n brydlon a chymryd camau fel sy'n briodol.***

### **Yr Adran Achosion Brys**

Gwelsom fod gan yr Adran Achosion Brys system ar waith i fonitro faint o amser yr oedd cleifion yn aros yn yr adran. Dywedodd y staff wrthym fod hyn yn cael ei fonitro'n agos gan esbonio bod staff yr adran yn gweithio'n galed i gwblhau asesiadau a gwneud atgyfeiriadau i gleifion gael eu gweld gan dimau meddygol a llawfeddygol. Fe'n hysbyswyd bod oediadau yn cael eu hachosi

gan anawsterau yn symud cleifion o'r Adran Achosion Brys i wardiau eraill yn yr ysbty, oherwydd diffyg gwelyau.

Ar ddiwrnodau ein harolygiad, dywedodd y cleifion a'r ymwelwyr hynny i ni siarad â nhw eu bod wedi cael eu brysbennu ar unwaith a'u bod yn aros am ragor o brofion. Ni chodwyd unrhyw bryderon am faint o amser yr oeddent wedi bod yn aros i gael eu gweld.

Yn ein harolygiad diwethaf o'r Adran Achosion Brys, nodwyd gennym fod angen gwelliannau o ran llif cleifion. Mewn ymateb i ganfyddiadau ein harolygiad, disgrifiodd y bwrdd iechyd amrywiaeth o gamau i wella hyn. Dywedodd staff uwch yr adran wrthym fod gwaith yn parhau i wella llif cleifion drwy'r Adran Achosion Brys. Fe'n hysbyswyd bod uwch nyrs wedi cael ei phenodi i weithio ar lif cleifion yn benodol. Nid oedd Uned Derbyniadau Llawfeddygol wedi cael ei datblygu ac fe'n hysbyswyd bod cynlluniau ar gyfer hyn yn parhau.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu diweddariad ar y cynlluniau i wella llif cleifion.***

### **Gofal unigol**

#### ***Safon 6.3 Gwrando a dysgu o adborth***

*Rhaid i bobl sy'n cael gofal, a'u teuluoedd, gael eu grymuso i ddisgrifio eu profiadau wrth y rhai a ddarparodd eu gofal fel bod dealltwriaeth eglur o'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio'n dda, a rhaid iddynt gael ymateb agored a gonest. Dylai gwasanaethau iechyd gael eu trefnu gan anghenion y bobl a wasanaethir a mynd i'r afael â'r anghenion hynny a dangos eu bod yn gweithredu ar adborth ac yn dysgu ohono.*

#### **Ward 10 a'r Adran Achosion Brys**

Canfuwyd gennym y darperir ffyrdd i gleifion a'u gofalwyr gynnig adborth ar eu profiadau.

Gwelsom fod cardiau sylwadau *Ffrindiau a Theulu* ar gael ar Ward 10 ac yn yr Adran Achosion Brys. Gallai'r rhain gael eu cwblhau gan gleifion a pherthnasau cyn cael eu rhoi mewn blychau post neilltuedig. Roedd gwybodaeth am sut i gysylltu â'r cyngor iechyd cymuned lleol hefyd wedi'i harddangos yn y ddau fan.

Gwelsom fod adborth *Ffrindiau a Theulu* wedi ei arddangos yn eglur yn yr Adran Achosion Brys i'r staff a'r cleifion ei weld. Fe'n hysbyswyd bod hwn,

ynghyd â chanlyniadau gweithgarwch archwilio arall, yn cael ei rannu gyda'r staff gyda'r nod o wneud gwelliannau i'r gwasanaeth ac ar gyfer y broses o ail-ddilysu gyda chyrrff proffesiynol.

Ni welsom fod adborth wedi'i arddangos ar Ward 10 a dylai'r bwrdd iechyd archwilio'r rhesymau am hyn a chymryd camau fel sy'n briodol.

## ***Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol***

**Ar y cyfan, roedd trefniadau ar waith i hybu diogelwch a lles cleifion. Nodwyd gennym fod angen gwella fel bod offer ar Ward 10 yn cael eu storio'n ddiogel. Mae angen adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer cael mynediad at y prif ysbyty yn y nos drwy'r Adran Achosion Brys hefyd.**

**Canfuwyd gennym fod cleifion yn cael eu hasesu ar gyfer eu risg o ddatblygu briwiau pwyso a'u risg o gwmpo. Canfuwyd gennym hefyd fod cynlluniau gofal wedi cael eu rhoi ar waith er mwyn helpu i atal briwiau pwyso a chwympau. Er i ni weld bod cofnodion monitro yn yr Adran Achosion Brys yn gyfredol, nodwyd gennym fod angen gwella o ran cwblhau'r cofnodion monitro a ddefnyddir ar Ward 10. Canfuwyd gennym fod trefniadau ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau.**

**Gwelsom fod y staff yn helpu'r cleifion i gynnal eu hylendid geneuol ac yn eu helpu i fwyta ac yfed. Canfuwyd gennym fod angen gwella o ran cynnig cyfleoedd i'r cleifion olchi eu dwylo cyn prydau bwyd.**

**Nodwyd gennym fod angen gwella o ran rheoli meddyginiaethau, yn enwedig ar Ward 10. Pan dynnwyd sylw'r staff at hyn, aethpwyd i'r afael â'r mater yn brydlon.**

**Gwelsom fod trefniadau ar waith i sicrhau lles a diogelwch oedolion agored i niwed.**

### **Gofal diogel**

#### ***Safon 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch***

*Mae iechyd, diogelwch a lles pobl yn cael eu hybu a'u diogelu'n weithredol. Mae risgiau'n cael eu hadnabod, eu monitro a, lle y bo'n bosibl, eu lleihau neu eu hatal.*

#### **Ward 10**

Roedd yn amlwg yn ystod taith o gwmpas y ward bod diffyg lle storio priodol ar y ward. Gwelsom fod offer codi a chario yn cael eu storio yn y prif goridor yn arwain at y ward. Roedd un o'r manau gwely gwag ar y ward hefyd yn cael ei ddefnyddio i storio cymhorthion cerdded a bocsys o gyflenwadau meddygol.



Nodwyd diffyg lle storio ar gyfer offer yn ein harolygiad diwethaf hefyd. Mewn ymateb i'n harolygiad, disgrifiodd y bwrdd iechyd fannau eraill a oedd ar gael oddi ar y ward. Nid oedd y trefniadau hyn wedi datrys y broblem yn foddhaol oherwydd lleoliad y man storio. Roedd staff uwch eisoes wedi nodi bod angen mwy o le storio ac roedd trefniadau'n cael eu gwneud i ddarparu cwpwrdd / ystafell storio ychwanegol i storio offer yn ddiogel.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

#### ***Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd fwrw ymlaen â chynlluniau i ddarparu lle storio ychwanegol ar gyfer offer a ddefnyddir ar y ward.***

Roedd un swyddfa ar y ward y gellid ei defnyddio ar gyfer sgysiau preifat. Defnyddiwyd y swyddfa hon yn aml gan staff y ward ac aelodau eraill o'r tîm gofal iechyd amlddisgyblaeth yn ystod y diwrnod. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried darparu lle arall yn gyfagos felly, lle gallai sgysiau preifat a sensitif gael eu cynnal rhwng staff a pherthnasau heb ymyrraeth.

### **Yr Adran Achosion Brys**

Gwelsom fod yr adran yn lân ac yn daclus ac yn rhydd o beryglon amlwg.

Yn ein harolygiad blaenorol, nodwyd gennym fod angen gwella fel y gallai'r staff arsylwi ar gleifion yn y brif ystafell aros er mwyn nodi arwyddion o waethygiad. Er i ni weld bod poster wedi cael eu tynnu i lawr i'w gwneud yn haws i staff y dderbynfa weld y cleifion, nodwyd gennym y gellid gwneud rhagor o welliannau yn hyn o beth. Dywedodd y staff uwch wrthym fod y bwrdd iechyd wedi datblygu cynlluniau i wella amlygrwydd yr ystafell aros ond nid oedd y gwaith hwn wedi datblygu ymhellach.

Gwelsom fod ystafell aros ychwanegol i gleifion yn cael ei defnyddio i ffwrdd o'r brif dderbynfa. Fodd bynnag, canfuwyd gennym nad oedd mecanwaith ar gyfer monitro cleifion a dywedodd y rheini i ni siarad â nhw yn yr ystafell hon wrthym nad oedd y staff yn dod i weld eu bod yn iawn yn aml. Dywedwyd wrthym fod poster wedi'i arddangos yn yr ystafell aros yn hysbysu'r cleifion am yr hyn i'w wneud pe bai eu cyflwr yn gwaethygu. Fodd bynnag, ni allem weld bod hwn wedi'i arddangos.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

#### ***Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau i hybu llesiant cleifion sy'n aros yn y brif ystafell aros a'r ystafell aros ychwanegol.***

Dywedodd staff uwch wrthym fod y prif goridor drwy'r adran yn cael ei ddefnyddio fel ffordd drwedd i'r prif ysbyty yn ystod y nos. Dywedodd staff uwch

wrthym eu bod yn teimlo y gallai hyn achosi risg i ddiogelwch a pheryglu preifatrwydd cleifion.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau presennol i ymwelwyr gael mynediad at yr ysbyty yn y nos a gwneud trefniadau priodol i hybu diogelwch a phreifatrwydd cleifion.***

Yn ystod ein harolygiad blaenorol, nodwyd gennym fod y toiledau'n brin yn yr adran i'r cleifion eu defnyddio. Gwelsom nad oedd y sefyllfa hon wedi cael ei gwella. Mewn ymateb i'n harolygiad blaenorol, disgrifiodd y bwrdd iechyd gynlluniau i gynyddu nifer y toiledau o un i ddau. Nid oedd y gwaith hwn wedi cael ei wneud. Dywedodd staff uwch yr ysbyty wrthym na fyddai'r gwaith hwn yn cychwyn tan y gwanwyn yn 2017 bellach.

***Safon 2.2 Atal briwiau pwysau a niwed i feinweoedd***

*Mae pobl yn cael eu helpu i ofalu am eu croen a gwneir pob ymdrech i atal pobl rhag datblygu briwiau pwysau a niwed i feinweoedd.*

Ward 10

Edrychwyd ar gofnodion gofal dau glaf ar Ward 10. Gwelsom fod y ddau glaf wedi cael eu hasesu ar gyfer eu risg o ddatblygu niwed pwysu (briwiau pwysu) gan ddefnyddio dull asesu cydnabyddedig. Gwelsom hefyd fod cynlluniau gofal ysgrifenedig wedi cael eu rhoi ar waith i gyfarwyddo'r staff ar sut i atal y cleifion rhag datblygu niwed pwysu. Roedd offer lleddfau pwysau yn cael eu defnyddio i atal cleifion rhag datblygu niwed pwysu.

Roedd gan y ddau glaf gofnodion monitro a oedd wedi cael eu cwblhau i ddangos bod y staff wedi archwilio croen y cleifion ar gyfer arwyddion o niwed pwysu. Roedd y cofnod monitro ar gyfer un claf wedi cael ei gwblhau'n rheolaidd ac yn gyfredol. Nid oedd y cofnod ar gyfer y claf arall wedi cael ei gwblhau'n llawn bob amser ac nid oedd yn gyfredol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau i sicrhau bod staff yn cwblhau cofnodion monitro'n llawn ar gyfer cleifion y nodwyd eu bod mewn perygl o ddatblygu niwed pwysu a bod y rhain yn cael eu cadw'n gyfredol.***

Roedd taflenni hybu iechyd ar sut i atal niwed pwyso ar gael yn rhwydd i gleifion a'u gofalwyr eu darllen.

### Yr Adran Achosion Brys

Edrychwyd hefyd ar y cofnodion gofal ar gyfer dau glaf yn yr Adran Achosion Brys. Gwelsom fod y ddau glaf wedi cael eu hasesu ar gyfer eu risg o ddatblygu niwed pwyso (briwiau pwyso) gan ddefnyddio dull asesu cydnabyddedig.

Roedd gan y ddau glaf gynlluniau gofal. Gwelsom fod cofnodion monitro wedi cael eu cwblhau a bod y rhain yn gyfredol. Dywedwyd wrthym fod matresi lleddfau pwysau ar bob troli er mwyn helpu i atal cleifion rhag datblygu niwed pwyso.

### ***Safon 2.3 Atal cwympiadau***

*Mae pobl yn cael eu hasesu o ran y risg o gwmpo a gwneir pob ymdrech i atal cwympiadau a lleihau niwed ac anabledd y gellir eu hosgoi.*

Nid ystyriwyd rheolaeth cwympiadau gennym yn yr Adran Achosion Brys yn ystod yr arolygiad hwn.

### Ward 10

Gwelsom fod y ddau glaf wedi cael eu hasesu ar gyfer eu risg o gwmpo gan ddefnyddio dull asesu cydnabyddedig. Gwelsom fod cynlluniau gofal ysgrifenedig wedi cael eu rhoi ar waith i leihau'r risg y byddai cleifion yn cwmpo a bod y rhain wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Gwelsom dystiolaeth bod cleifion yn cael eu monitro'n barhaus ond nid oedd y cofnodion hyn wedi cael eu cwblhau'n rheolaidd bob amser.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau i sicrhau bod y staff yn cwblhau cofnodion monitro yn llawn ar gyfer cleifion y nodwyd eu bod mewn perygl o gwmpo.***

### ***Safon 2.4 Atal a rheoli heintiau a dadhalogi***

*Mae angen i gamau i atal heintiau fod yn fusnes i bawb a rhaid iddynt fod yn*

*rhan o arfer pob dydd ym maes gofal iechyd ac yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael fel bod pobl yn cael eu diogelu rhag heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd y gellir eu hatal.*

### Ward 10

Yn ystod ein harolygiad, roedd rhai cleifion yn cael eu nyrsio ar wahân er mwyn lleihau croes-heintio. Gwelsom fod arwyddion eglur wedi'u harddangos yn gofyn i ymwelwyr siarad â staff y ward cyn mynd i mewn i ystafelloedd. Roedd yr arwyddion hefyd yn cynnig gwybodaeth am y rhagofalon i'w cymryd er mwyn lleihau croes-heintio.

Gwelsom hefyd fod offer diogelwch personol ar gael yn rhwydd ac yn cael eu defnyddio gan y staff.

Dyweddodd y staff wrthym fod offer yn cael eu storio yn un o'r cilfannau cleifion a oedd wedi cael ei gau i dderbyniadau cleifion dros dro. Roedd y cilfan hwn wedi cael ei gau i leihau croes-heintio. O gofio y byddai'r offer yn cael eu defnyddio ar gyfer cleifion eraill ar y ward, gofynnwyd i'r staff am y trefniadau glanhau ar gyfer yr offer hyn. Dywedodd y staff wrthym fod yr offer yn cael eu glanhau gan staff nyrsio.

### Yr Adran Achosion Brys

Yn ein harolygiad diwethaf o'r Adran Achosion Brys, nodwyd gennym fod angen gwella o ran amserlenni glanhau.

Yn yr arolygiad hwn, gwelsom fod amserlenni ar waith ar gyfer glanhau ac archwilio teganau plant yn yr ystafelloedd aros. Roedd y cofnodion yn dangos bod archwiliadau'n cael eu cynnal sawl gwaith yr wythnos.

Dyweddodd y staff wrthym fod staff cadw tŷ yn glanhau'r toiledau ddwywaith y dydd ac mai cyfrifoldeb y staff nyrsio oedd hyn rhwng yr amseroedd hyn. Nid oedd amserlen lanhau ar waith. O gofio mai dim ond un toiled oedd yn yr adran i'w ddefnyddio gan gleifion, gallai'r trefniadau presennol achosi anawsterau i'r staff o ran cadw'r cyfleusterau hyn yn lân ac yn hylan. Dylai'r bwrdd iechyd adolygu amllder glanhau'r cyfleusterau hyn felly, er mwyn lleihau croes-heintio a hybu llesiant cleifion.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r bwrdd iechyd adolygu amllder glanhau'r toiledau i leihau croes-heintio a hybu llesiant cleifion.***

Gwelsom fod archwiliadau rheolaidd wedi cael eu cynnal ar Ward 10 ac yn yr Adran Achosion Brys. Roedd hyn gyda'r nod o nodi meysydd i'w gwella fel y gellid cymryd camau yn ôl yr angen i hybu arfer heintiau da.

### ***Safon 2.5 Maethiad a hydradiad***

*Mae pobl yn cael eu helpu i ddiwallu eu hanghenion o ran maethiad a hydradiad, er mwyn cael yr adferiad gorau posibl ar ôl afiechyd neu anaf.*

### Ward 10

Yn ein harolygiad blaenorol, nodwyd gennym fod angen gwella o ran cynnig y cyfle i gleifion olchi eu dwylo cyn prydau bwyd. Mewn ymateb i'n harolygiad, dywedodd y bwrdd iechyd ei fod yn profi opsiynau fel llieiniau gwlyb i gleifion na allai ddefnyddio basn golchi dwylo yn rhwydd. Roedd yn siomedig gweld nad oedd cleifion yn cael cynnig cyfle i olchi eu dwylo cyn bwyta eu pryd o hyd. Mae hyn yn awgrymu nad oedd unrhyw welliant a wnaed wedi cael ei gynnal.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r bwrdd iechyd wneud trefniadau i sicrhau bod cleifion yn cael cynnig y cyfle i olchi eu dwylo cyn prydau bwyd yn gyson.***

Gwelsom yn ystod ein harolygiad fod gan gleifion ddiodydd o fewn cyrraedd rhwydd a bod y staff yn helpu'r cleifion i fwyta ac yfed, yn dibynnu ar eu cyflwr.

Yn y sampl o gofnodion gofal cleifion i ni edrych arnynt, gwelsom fod y staff wedi defnyddio asesiad risg maethgol i nodi anghenion gofal maethgol cleifion. Gwelsom hefyd fod cynlluniau gofal ysgrifenedig wedi cael eu datblygu. Yn gyffredinol, roedd cofnodion monitro wedi cael eu cwblhau'n llawn ac yn gyfredol.

### Yr Adran Achosion Brys

Yn ein harolygiad diwethaf o'r Adran Achosion Brys, nodwyd gennym fod angen gwella o ran asesu a helpu cleifion gyda'u gofal geneuol, cynorthwyo cleifion i fwyta ac yfed, a chwblhau cofnodion monitro. Mewn ymateb i'n harolygiad, disgrifiodd y bwrdd iechyd nifer o gamau i roi sylw i'r gwelliant yr oedd ei angen.

Dywedodd staff uwch wrthym fod y staff wedi cael eu hatgoffa ar ôl yr arolygiad diwethaf o'u cyfrifoldebau o ran helpu cleifion i fwyta ac yfed. Gwelsom gopi o'r ohebiaeth a anfonwyd i'r staff yn dilyn ein harolygiad diwethaf.

Roedd yn braf gweld bod dull asesu hylendid geneuol wedi cael ei ychwanegu at ddogfennau asesiadau nyrsio'r adran a bod hwn wedi cael ei gwblhau ar gyfer y ddau glaf i ni weld cofnodion ar eu cyfer. Gwelsom hefyd fod cofnodion monitro wedi cael eu cynnal ac yn gyfredol. Roedd offer gofal geneuol i gleifion eu defnyddio ar gael yn yr adran.

Dywedodd staff uwch fod hambyrddau arbenigol ychwanegol wedi cael eu prynu i'w gwneud yn haws i gleifion ar droliâu fwyta eu prydau. Gwelsom staff yn cynnig diodydd poeth i gleifion yn ystod ein harolygiad.

Ar adeg yr arolygiad, dywedodd y staff wrthym fod y prif beiriant golchi llestri (a ddefnyddir ar gyfer wardiau ac adrannau ar draws yr ysbyty) wedi torri. Yn y cyfamser, roedd platiau papur yn cael eu defnyddio ar gyfer gweini prydau i gleifion. Roedd staff uwch yr ysbyty yn cydnabod nad oedd y trefniant hwn yn ddelfrydol a rhoddwyd sicrwydd bod peiriant golchi llestri newydd yn cael ei osod ym mis Chwefror.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC am y cynnydd o ran gosod peiriant golchi llestri sy'n gweithio.***

### ***Safon 2.6 Rheoli meddyginiaethau***

*Mae pobl yn cael meddyginiaeth am y rheswm cywir, yn cael y feddyginiaeth gywir, y dos cywir ohoni, a hynny ar yr amser cywir.*

### Ward 10

Gwelsom fod meddyginiaethau'n cael eu storio mewn cypyrddau a throlïâu y gellir eu cloi mewn ystafell y gellir ei chloi. Yn ystod diwrnod cyntaf ein harolygiad, fodd bynnag, gwelsom fod yr ystafell a'r trolïâu wedi cael eu gadael heb eu cloi. Gwelsom hefyd fod troli a oedd yn cael ei defnyddio yn ystod rownd feddyginiaeth wedi cael ei gadael heb ei chloi yn ystod rownd feddyginiaeth. Hysbyswyd staff uwch y ward am ein canfyddiadau ar unwaith fel y gellid cymryd camau i ddatrys y sefyllfa. Cyn diwedd ein harolygiad, gwelsom fod yr ystafell wedi ei chloi pan nad oedd yn cael ei defnyddio a bod y trolïâu a oedd wedi'u storio yn yr ystafell wedi eu cloi hefyd.

Nodwyd gennym fod tymheredd yr ystafell a ddefnyddir i storio meddyginiaethau'n teimlo'n gynnes. Dywedodd y staff wrthym nad oedd tymheredd yr ystafell yn cael ei fonitro a'i gofnodi fel mater o drefn. Dywedodd

staff uwch wrthym hefyd eu bod wedi nodi bod yr ystafell yn gynnes a bod cynigion ar gyfer gwaith ystadau yn cael eu hystyried gan y bwrdd iechyd i wneud gwelliannau o ran storio meddyginiaethau yn fwy cyffredinol.

Roedd meddyginiaethau y mae angen eu rhoi mewn oergell yn cael eu storio mewn oergell y gellir ei chloi, a oedd wedi ei chloi pan nad oedd yn cael ei defnyddio. Cadarnhaodd y staff fod tymheredd yr oergell yn cael ei fonitro a'i gofnodi'n feunyddiol. Fodd bynnag, ar ddiwrnod cyntaf ein harolygiad, ni ellid dod o hyd i'r cofnod. Cyn diwedd ein harolygiad, roedd staff uwch wedi cychwyn cofnod newydd ar gyfer monitro tymheredd yr ystafell a'r oergell.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau priodol i fodloni ei hun bod meddyginiaethau a ddefnyddir mewn mannau clinigol yn cael eu storio'n ddiogel ac yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchydd.***

Gwelsom fod cyffuriau a reolir yn cael eu storio'n ddiogel. Yn gyffredinol, roedd y cofnodion yn dangos bod y staff wedi cynnal archwiliadau stoc beunyddiol yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd ei hun. Fodd bynnag, gwelsom fod rhai bylchau yn y cofnodion, a oedd yn awgrymu efallai nad oedd archwiliadau wedi cael eu cynnal. Hysbyswyd staff uwch am ein canfyddiadau, ac roeddent wedi ymchwilio i'r rhesymau am hyn ac wedi rhoi sicrwydd bod camau cywir wedi cael eu cymryd cyn diwedd ein harolygiad.

Roedd yn galonogol canfod bod staff uwch y ward wedi manteisio ar gyfleoedd i ddysgu o'r materion uchod ac wedi gwneud / yn gwneud trefniadau i atal y rhain rhag digwydd eto.

Edrychwyd hefyd ar sampl o gofnodion rhoi meddyginiaeth naw o gleifion. Gwelsom yn gyffredinol fod y rhain wedi cael eu cwblhau'n llawn. Canfuwyd rhai enghreifftiau gennym lle'r oedd angen gwella. Roedd y rhain yn cynnwys: achos lle'r oedd meddyginiaeth wedi cael ei rhagnodi ar gyfer un claf ond nid oedd y cofnod rhoi meddyginiaeth wedi cael ei lofnodi gan feddyg; nid oedd y staff bob amser wedi llofnodi'r cofnodion rhoi meddyginiaeth i ddangos eu bod wedi gwirio bod sanau gwrth-emboledd yn cael eu gwisgo'n gywir ar gyfer yr un claf ac un arall; ac nid oedd hyd triniaeth wrthfotig wedi cael ei nodi ar gyfer un claf. Hefyd, gwelsom fod cofnodion rhoi meddyginiaeth dau glaf yn nodi nad oedd un dogn o feddyginiaeth wedi cael ei roi ar yr un achlysur, ond nid oedd unrhyw esboniad pam. Ni allem ddweud felly pa un a oedd y cleifion hyn wedi derbyn eu meddyginiaeth ai peidio.

## ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau priodol i fodloni ei hun bod staff nyrsio a meddygol sy'n gyfrifol am ragnodi a rhoi meddyginiaeth yn cydymffurfio â pholisi'r bwrdd iechyd ar gyfer y defnydd diogel o feddyginiaethau.***

### Yr Adran Achosion Brys

Nodwyd gennym yn ein harolygiad blaenorol bod angen gwella o ran staff yn dilyn y weithdrefn gywir ar gyfer defnyddio'r blwch hypo.<sup>3</sup> Canfuwyd gennym yn ystod yr arolygiad diweddar hwn bod camau wedi cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn. Roedd canllawiau a gwybodaeth ysgrifenedig ar gael i gymell y staff ar y defnydd cywir o'r blwch hypo.

Gwelsom fod meddyginiaethau a ddefnyddir yn yr adran yn cael eu storio'n ddiogel. Fodd bynnag, gwelsom fod meddyginiaeth y daethpwyd â hi i'r adran gan ddau glaf wedi cael ei gadael heb ei diogelu wrth ddesg yn yr adran. Gallai hyn gynyddu'r perygl y bydd meddyginiaeth cleifion eu hunain yn cael ei cholli. Hysbyswyd staff uwch am ein pryderon a chymerwyd camau ar unwaith i gadw'r feddyginiaeth yn ddiogel. Cymhellodd y staff uwch hefyd i gyflwyno gweithdrefn newydd ar gyfer storio meddyginiaeth cleifion eu hunain er mwyn ei chadw'n ddiogel.

Edrychwyd ar sampl o gofnodion rhoi meddyginiaeth pedwar o gleifion. Canfuwyd gennym fod y rhain wedi cael eu cwblhau'n llawn a'u bod yn gyfredol.

Unwaith eto, gwelsom fod cyffuriau a reolir wedi eu storio'n ddiogel yn yr Adran Achosion Brys. Yn gyffredinol, roedd y cofnodion yn dangos bod y staff wedi cynnal archwiliadau stoc beunyddiol yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd ei hun. Gwelsom, fodd bynnag, fod rhai bylchau yn y cofnodion, sy'n awgrymu nad oedd archwiliadau wedi cael eu cynnal. Hysbyswyd staff uwch am ein canfyddiadau a, cyn diwedd ein harolygiad, roeddent wedi ymchwilio i'r rheswm am hyn ac wedi rhoi sicrwydd bod camau cywiro wedi cael eu cymryd.

Canfuwyd gennym hefyd nad oedd gwiriadau dyddiol o dymheredd yr oergell yn cael eu cynnal. Cyn diwedd ein harolygiad, roedd staff uwch wedi cyflwyno rhestr wirio ddiwygiedig i atgoffa'r staff i wirio a chofnodi tymheredd yr oergell.

---

<sup>3</sup> Ceir meddyginiaeth ac offer mewn blwch hypo y gellir eu defnyddio i drin cleifion â hypoglycaemia (glwcos gwaed isel sy'n gofyn am driniaeth brydlon) difrifol.



Roedd fferyllwyr yn ymweld â Ward 10 a'r Adran Achosion Brys ac yn gallu cynnig cyngor a chymorth i'r staff a'r cleifion o ran y meddyginiaethau a ddefnyddir. Fe'n hysbyswyd bod fferyllydd yn ymweld â'r Adran Achosion Brys ar sail ad hoc am tua awr yr wythnos. Roedd y staff yn teimlo y byddai mwy o gymorth fferyllol yn fuddiol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd adolygu'r cymorth fferyllol i'r Adran Achosion Brys a chymryd camau yn ôl yr angen i sicrhau bod hwn yn ddigonol.***

Ward 10 a'r Adran Achosion Brys

Canfuwyd gennym nad oedd asesiadau risg thromboproffylacsis ysgrifenedig, i nodi pa un a ddylai cleifion gael triniaeth i atal clotiau gwaed, wedi cael eu cwblhau gan feddygon fel mater o drefn. Mae ein harolygiadau blaenorol hefyd wedi nodi nad oedd asesiadau risg thromboproffylacsis yn cael eu cwblhau bob amser. Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd gymryd camau i sicrhau bod gwelliannau'n cael eu gwneud a'u cynnal yn hyn o beth.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau priodol i fodloni ei hun bod staff meddygol sy'n gyfrifol am gwblhau asesiadau risg thromboproffylacsis yn gwneud hynny'n unol â pholisi'r bwrdd iechyd.***

***Safon 2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg***

*Mae'r gwasanaethau iechyd yn hybu ac yn diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu'n wynebu risg ar unrhyw adeg.*

Ward 10

Cadarnhaodd staff uwch fod cleifion ar y ward a oedd yn destun awdurdodiadau o dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Edrychwyd ar y dogfennau a oedd ar waith ar gyfer un claf a gwelsom fod y rhain yn gyflawn. Dangosodd staff uwch y ward ddealltwriaeth dda o'r broses ynghlwm wrth y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

## Yr Adran Achosion Brys

Nodwyd gennym yn ein harolygiad diwethaf o'r Adran Achosion Brys bod angen gwella i gynorthwyo'r staff i fynychu hyfforddiant diogelu. Roedd yn braf gweld bod gwelliant wedi cael ei wneud i ganran y staff a oedd yn mynychu hyfforddiant diogelu.

### **Gofal effeithiol**

#### ***Safon 3.5 Cadw cofnodion***

*Mae trefniadau da ar gyfer cadw cofnodion yn hanfodol i sicrhau bod pobl yn cael gofal effeithiol a diogel. Rhaid i wasanaethau iechyd sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw'n unol â deddfwriaeth a chanllawiau ar safonau clinigol.*

Nodwyd gennym yn ein harolygiadau blaenorol bod angen gwelliannau o ran cwblhau cofnodion gofal. Canolbwyntiodd yr arolygiad hwn ar gwblhau cofnodion sy'n gysylltiedig ag atal a rheoli niwed pwysu a chwympiadau. Edrychwyd hefyd ar gofnodion rhoi meddyginiaeth a siartiau monitro cleifion. Disgrifiwyd ein canfyddiadau yn hyn o beth yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

## ***Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth***

**Disgrifiwyd a dangoswyd strwythur rheoli â llinellau atebolrwydd ac adrodd eglur i staff uwch yn yr uned darparu gwasanaethau.**

**Daeth yn amlwg yn ystod ein harolygiad bod trefniadau staffio ar Ward 10 yn golygu bod gan staff uwch amser rheoli addas cyfyngedig i gyflawni'r dyletswyddau rheoli sy'n gysylltiedig â'r swydd. Rhoddodd staff uwch yr ysbyty sicrwydd bod ymdrechion yn cael eu gwneud er mwyn helpu i ddatrys hyn. Canfuwyd gennym fod arweinyddiaeth gref yn cael ei darparu gan staff uwch yn yr Adran Achosion Brys a gwelsom staff yn gweithio'n effeithiol fel tîm.**

**Roedd y staff yn gyfeillgar ac yn dangos ymrwymiad i ddarparu gofal diogel ac o ansawdd uchel i gleifion.**

### **Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd**

#### ***Y Safonau Iechyd a Gofal, Rhan 2 – Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd***

*Mae llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol sy'n gyson â maint a chymhlethdod y gwasanaeth iechyd yn hanfodol i gyflenwi gofal diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn modd cynaliadwy.*

#### **Ward 10 a'r Adran Achosion Brys**

Mae cyfrifoldebau rheoli ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg wedi eu rhannu ar draws chwe uned darparu gwasanaethau. Mae Ward 10 a'r Adran Achosion Brys yn rhan o Uned Darparu Gwasanaethau Tywysoges Cymru.

Disgrifiwyd a dangoswyd strwythur rheoli â llinellau atebolrwydd ac adrodd eglur i staff uwch yn yr uned darparu gwasanaethau.

Disgrifiodd staff uwch system o archwilio clinigol rheolaidd yn rhan o'r gweithgarwch monitro ansawdd cyffredinol. Dywedwyd wrthym fod canlyniadau archwiliadau yn cael eu darparu i staff uwch yr ysbyty fel y gellid nodi meysydd i'w gwella a mynd i'r afael â nhw fel sy'n briodol.

Yn ystod ein harolygiad, gwahoddwyd staff sy'n gweithio yn y ddau fan i ni ymweld â nhw i gwblhau holiadur AGIC. Trwy ein holiaduron, gofynnwyd i'r staff

gynnig eu sylwadau ar amrywiaeth o bynciau sy'n gysylltiedig â'u gwaith. Dychwelwyd cyfanswm o naw o holiaduron wedi'u cwblhau. Cwblhawyd y rhan fwyaf o'r rhain gan staff sy'n gweithio yn yr Adran Achosion Brys.

Dywedodd yr holl staff a gwblhaodd ac a ddychwelodd holiaduron wrthym fod eu rheolwyr uniongyrchol yn gefnogol ac yn darparu adborth eglur ar eu gwaith. Roedd ymatebion yn ein holiaduron hefyd yn dangos bod y staff yn teimlo bod eu rheolwyr yn annog gwaith tîm.

### **Staff ac adnoddau**

#### ***Safon 7.1 Y Gweithlu***

*Dylai gwasanaethau iechyd sicrhau bod digon o staff â'r wybodaeth a sgiliau cywir ar gael ar yr amser cywir i ddiwallu'r angen.*

#### **Ward 10**

Wrth arolygu Ward 10, arsylwyd amgylchedd clinigol prysur iawn gennym ac roedd angen cymorth sylweddol ar y cleifion gan y tîm amlddisgyblaeth. Roedd y staff yn gyfeillgar ac yn dangos ymrwymiad i ddarparu gofal diogel o ansawdd uchel.

Er i ni weld bod cleifion yn derbyn gofal da, nodwyd gennym y gallai staff ychwanegol fod wedi bod o gymorth i hybu gofal cleifion diogel o ansawdd uchel ymhellach. Roedd hyn yn arbennig o amlwg yn ystod diwrnod cyntaf ein harolygiad. Dywedwyd wrthym y gwnaed cais am aelod staff ychwanegol ond na ellid cyflawni'r cais. Cafwyd aelod ychwanegol o staff ar ail ddiwrnod ein harolygiad i gynorthwyo gyda'r gwaith o arsylwi dau glaf yn agos.

Daeth yn amlwg yn ystod ein harolygiad bod trefniadau staffio presennol yn golygu bod gan staff uwch amser rheoli addas cyfyngedig i gyflawni'r dyletswyddau rheoli sy'n gysylltiedig â'r swydd. Fe'n hysbyswyd bod hyn wedi cael ei uwchgyfeirio i staff uwch yr ysbyty a bod camau wedi cael eu cynnig i ddatrys y sefyllfa. Gwnaed gwaith dilynol ar hyn gennym hefyd gyda staff uwch yr ysbyty yn syth ar ôl ein harolygiad. Rhoddwyd sicrwydd ysgrifenedig ganddynt fod camau wedi cael eu cymryd, a'u bod yn parhau, i wneud gwelliannau yn hyn o beth.

#### **Yr Adran Achosion Brys**

Gwelsom yn ystod ein harolygiad fod yr Adran Achosion Brys yn cael cyfnodau prysur. Roedd yn ymddangos bod lefelau staffio a'r cymysgedd sgiliau yn

briodol i ddiwallu anghenion cleifion yn yr adran ar adeg ein hymweliad arolygu. Roedd y staff yn gyfeillgar ac yn dangos ymrwymiad i ddarparu gofal diogel o ansawdd uchel.

Canfuwyd gennym fod arweinyddiaeth gref yn cael ei darparu gan staff uwch a gwelsom staff yn gweithio'n effeithiol fel tîm.

#### Ward 10 a'r Adran Achosion Brys

Dywedodd y staff a gwblhaodd holiaduron AGIC wrthym eu bod wedi mynychu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau. Fodd bynnag, dywedodd lleiafrif o'r staff a ddychwelodd holiaduron nad oeddent wedi mynychu hyfforddiant neu nad oeddent wedi mynychu hyfforddiant diweddar mewn iechyd a diogelwch, y Ddeddf Galluedd Meddylol, y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, dementia, a gofal unigolion hŷn. Dylai'r bwrdd iechyd archwilio'r rhesymau am hyn a chynorthwyo'r staff i fynychu hyfforddiant fel sy'n briodol.

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r bwrdd iechyd gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i ddelio â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai cynllun gwella'r bwrdd iechyd ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael eu trin, gan gynnwys amserlenni. Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau nad yw canfyddiadau'r arolygiad hwn yn gyfundrefnol ar draws adrannau/unedau eraill y bwrdd iechyd.

Mae angen i'r camau a gymerir gan y bwrdd iechyd mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC am y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r bwrdd iechyd yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r bwrdd iechyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.


Caiff cynllun gwella'r bwrdd iechyd, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 6. Methodoleg

Mae gennym amrywiaeth o ddulliau a methodolegau ar gael i ni pan fyddwn yn arolygu ysbytai'r GIG, ac rydym yn dewis y rhai mwyaf priodol yn ôl amrywiaeth ac ystod y gwasanaethau yr ydym yn bwriadu eu harolygu. Mae arolygiadau trylwyr o un ward yn caniatáu i ni gymryd golwg hynod fanwl ar agwedd fach ar ddarpariaeth o ofal iechyd, tra bod y sylw cynyddol a gynigir gan ymweld â nifer fwy o wardiau ac adrannau'n ein galluogi i gynnal asesiad mwy cadarn o themâu a phroblemau o ran y bwrdd iechyd dan sylw. Yn y ddau achos, caiff adborth ei wneud ar gael i wasanaethau iechyd mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau o ysbytai yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

### **Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal 2015**



Mae arolygiadau o ysbytai'r GIG yn ddirybudd ac rydym yn arolygu ac yn adrodd yn erbyn tair thema:

- **Ansawdd profiad y claf:**  
Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr i sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.
- **Cyflenwi gwasanaeth diogel ac effeithiol:**  
Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal

o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

- **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth:**

Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Sgyrsiau gyda chleifion a pherthnasau, a chyfweiliadau gyda staff
- Arsylwadau cyffredinol ar amgylchedd y gofal a'r arferion gofal
- Trafodaethau gydag uwch reolwyr yn y gyfarwyddiaeth
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisïau a gweithdrefnau sy'n sail i ofal cleifion
- Ystyried prosesau, gweithgareddau a rhaglenni gwella ansawdd
- Ymatebion mewn holiaduron cleifion AGIC a gwblhawyd
- Ymatebion mewn holiaduron staff AGIC a gwblhawyd.

Mae arolygiadau AGIC yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn. Efallai y byddant hefyd yn nodi problemau ehangach yn gysylltiedig ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gofal iechyd a ddarperir a'r ffordd y mae'r ddarpariaeth o wasanaethau'n sicrhau urddas a gofal hanfodol.



## Atodiad A

Arolygiad Ysbyty: Cynllun Gwella

Ysbyty: Tywysoges Cymru

Ward / Adran: Ward 10

Dyddiad yr Arolygiad: 17 a 18 Ionawr 2017

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Safon	Camau gan y Bwrdd Iechyd	S C
<b>CAMAU SICRWYDD AR UNWAITH</b>				
Dim camau sicrwydd ar unwaith yn ofynnol.				
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
8	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd: <ul style="list-style-type: none"><li>wneud trefniadau priodol i sicrhau nad yw cleifion yn cael eu derbyn i fannau rhywiau cymysg</li><li>sicrhau bod y staff yn dilyn polisi hysbysu am ddigwyddiadau'r bwrdd iechyd</li></ul>	4.1	Polisi ar gyfer llety un rhyw i gael ei atgyfnerthu/ailgyflwyno i staff y ward ar bob lefel.  Rheolwyr gwelyau a thimau nyrsio y tu allan i oriau i hysbysu a thrafod unrhyw fethiant i sicrhau llety un rhyw wrth drosglwyddo ac mewn cyfarfodydd gwelyau.  Cynyddu dadansoddiadau o fethiannau i sicrhau llety un rhyw i	C N          U (r g M g n a    P lly

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Safon	Camau gan y Bwrdd Iechyd	S C
			gael dealltwriaeth fwy eglur o nifer ac effaith y methiannau.	U D T C
8	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau i ddiogelu cleifion sy'n defnyddio'r toiled a chyfleusterau ymolchi rhag amlygiad diangen.	4.1	<p>Asesu'r posibilrwydd i adleoli'r toiled staff (ar y ward) a neilltuo hwn fel toiled ychwanegol i gleifion</p> <p>Arwyddion wedi'u lamineiddio i gael eu harddangos i annog cleifion i gloi'r drws fel sy'n briodol</p> <p>Cyflwyno arwyddion penodol i'r rhywiau</p> <p>Uned ddarparu Tywysoges Cymru i gwmpasu holl rannau'r ward i sicrhau bod arwyddion penodol i'r rhywiau yn cael eu harddangos</p>	P W  P W  P W  C N
11	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd archwilio'r rhesymau pam nad yw anghenion gofal cleifion bob amser yn cael eu diwallu'n brydlon a chymryd camau fel sy'n briodol.	5.1	Adolygiad o aciwtedd a dibyniaeth cleifion i gael ei gwblhau'n fisol	P W

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Safon	Camau gan y Bwrdd Iechyd	S C
			<p>Bydd archwiliadau aciwtedd / dibyniaeth Ebrill a Mai 2017 yn cael eu dadansoddi ar y cyd ag adolygiad o drefn staffio a chymysgedd sgiliau Ward 10</p> <p>Trosglwyddo ar yr erchwyn i gael ei gyflwyno ar Ward 10 i hybu cyfathrebiad effeithiol o anghenion unigol cleifion; teithiau cerdded a hap-archwiliadau ychwanegol gan fetronau i sicrhau cydymffurfiad â'r gweithrediad hwn</p>	P W F  P W F
<b>Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol</b>				
15	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd fwrw ymlaen â chynlluniau i ddarparu lle storio ychwanegol ar gyfer offer a ddefnyddir ar y ward.	2.1	Cyfarwyddwr yr Ysbyty i adolygu a thrafod ag EBME i nodi man arall y gellir lleoli EBME a fyddai'n galluogi i offer orthopedig mawr ar gyfer wardiau 9 a 10 gael eu storio.	C y
16	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau i sicrhau bod staff yn cwblhau cofnodion monitro'n llawn ar gyfer cleifion y nodwyd eu bod mewn perygl o ddatblygu niwed pwyso a bod y rhain yn cael eu cadw'n gyfredol.	2.2	<p>Archwiliadau i gael eu cynnal, adrodd arnynt, a chynlluniau gweithredu i gael eu datblygu a bod yn destun gwaith dilynol gan Brif Nyrs y Ward a'r Fetron.</p> <p>Archwiliadau cymheiriaid i gael eu cychwyn (Metronau/Prif Nyrsys y Ward/Prif Nyrsys Gwrywaidd i groes-archwilio meysydd ei gilydd).</p> <p>Cynyddu archwiliadau o ddogfennau i wythnosol ar Ward 10 am y tri mis nesaf.</p>	P W  Y F C  Y F g

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Safon	Camau gan y Bwrdd Iechyd	S C
			<p>Yr holl wersi a ddysgir i gael eu rhannu a'u rhaedru mewn cyfarfodydd ward misol a gofnodir a gychwynwyd ym mis Mawrth 2017.</p> <p>Bydd yr holl gamau uchod yn cael eu monitro trwy Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion Tywysoges Cymru.</p>	P W
17	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau i sicrhau bod y staff yn cwblhau cofnodion monitro yn llawn ar gyfer cleifion y nodwyd eu bod mewn perygl o gwmpo.	2.3	<p>Archwiliadau i barhau i gael eu cynnal, adrodd arnynt a chynlluniau gweithredu i gael eu datblygu a bod yn destun gwaith dilynol gan Brif Nyrs y Ward a'r Fetron</p> <p>Archwiliadau cymheiriaid i gael eu cychwyn (Metronau/Prif Nyrsys y Ward/Prif Nyrsys Gwrywaidd i groes-archwilio meysydd ei gilydd).</p> <p>Cynyddu archwiliadau o ddogfennau i wythnosol ar ward 10 am y 3 mis nesaf.</p> <p>Yr holl wersi a ddysgir i gael eu rhannu a'u rhaedru mewn cyfarfodydd ward misol a gofnodir a gychwynwyd ym mis Mawrth 2017</p> <p>Bydd yr holl gamau uchod yn cael eu monitro trwy Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion Tywysoges Cymru.</p>	P W Y C  Y F g  Y C  U

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Safon	Camau gan y Bwrdd Iechyd	S C
			<p>Prif Nyrs y Ward i ymuno â Grŵp Cwmpïadau uned ddarparu Tywysoges Cymru. Bydd Rheolwr Ward yn rhoi diweddariadau misol i'w staff.</p>	P W
19	<p>Dylai'r bwrdd iechyd wneud trefniadau i sicrhau bod cleifion yn cael cynnig y cyfle i olchi eu dwylo cyn prydau bwyd yn gyson.</p>	2.5	<p>Pecyn o lieiniau gwlyb i gael ei roi i bob claf pan fydd yn cael ei dderbyn i'r ward at y diben hwn a chynnig rhai newydd yn ôl y gofyn.</p>	P W b h W  C h g b w d ty y e tr g e 2
20	<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC am y cynnydd o ran gosod peiriant golchi llestri sy'n gweithio.</p>	2.5	<p>Mae'r peiriant golchi llestri ar ward 9/10 yn gweithio.</p> <p>Cafwyd gwared ar brif beiriant golchi llestri'r ysbyty ac mae un newydd yn cael ei osod. Mae atal a rheoli heintiau wedi cymryd rhan lawn yn y camau a gymerwyd i reoli'r sefyllfa i</p>	C N

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Safon	Camau gan y Bwrdd Iechyd	S C
			sicrhau bod llestri / cyllyll a ffyrc a ddefnyddiwyd yn cael eu glanhau'n briodol neu fod llestri untro yn cael eu defnyddio yn y cyfamser. Hysbysir cleifion am y rheswm am hyn.	
21	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau priodol i fodloni ei hun bod meddyginiaethau a ddefnyddir mewn mannau clinigol yn cael eu storio'n ddiogel ac yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchydd.	2.6	Amlygwyd y risg yng Ngrŵp Amgylchedd Tywysoges Cymru, a hysbyswyd bod atebion yn seiliedig ar gyfalaf gan fod tymheredd yr ystafelloedd lle caiff meddyginiaethau eu storio ar lefel ward oherwydd ffactorau amgylcheddol na allwn eu haddasu ar hyn o bryd.  Mae'r hyn yn dal i fod ar gofrestr risg yr adran fferylliaeth/ystadau, ac mae opsiynau i'w ddatrys yn cael eu harchwilio gydag Ystadau.	C y
21	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau priodol i fodloni ei hun bod staff nyrsio a meddygol sy'n gyfrifol am ragnodi a rhoi meddyginiaeth yn cydymffurfio â pholisi'r bwrdd iechyd ar gyfer y defnydd diogel o feddyginiaethau.	2.6	Yr holl staff ar Ward 10 i gael eu hatgoffa am eu cyfrifoldebau a'u hatebolrwydd o ran rheoli meddyginiaethau.  Rhoi gweithdrefnau disgyblu ar waith os oes diffyg cydymffurfiad â'r polisi.  Cwblhawyd hyn ar lafar. Gofynnwyd i brif nyrs y ward ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ei bod wedi trafod hyn gyda'i staff erbyn 1 Ebrill 2017.  Mwy o wylidwriaeth a monitro trwy gydol y dydd gan Brif Nyrs y Ward, y	P W      P W   P W

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Safon	Camau gan y Bwrdd Iechyd	S C
			<p>Fetron a'r Uwch Fetron.</p> <p>Mwy o wylriadwriaeth a monitro yn y nos ac ar benwythnosau gan yr Ymarferwyr Nyrsio y Tu Allan i Oriau.</p> <p>Ymgysylltu â'r adran fferylliaeth i gael gwared ar droliâu meddyginiaeth a chyflwyno'r defnydd o adrannau cypyrddau a loceri meddyginiaeth cleifion wedi eu cloi</p>	a F  Y N A P W
23	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau priodol i fodloni ei hun bod staff meddygol sy'n gyfrifol am gwblhau asesiadau risg thromboproffylacsis yn gwneud hynny'n unol â pholisi'r bwrdd iechyd.	2.6 a 2.1	<p>Bydd y Cyfarwyddwr Meddygol yn codi hyn mewn cyfarfodydd archwilio meddygol a llawfeddygol clinigol ac mewn cyfarfodydd staff meddygol iau.</p> <p>Bydd y Cyfarwyddwr Meddygol yn gofyn am adolygiad archwilio tri mis o gydymffurfiad ar Ward 10.</p>	Y C M
<b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b>				
-	Nid oes angen cynllun gwella.			

## Cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd:

**Enw (llythrennau bras):** Debbie Bennion

**Teitl:** Cyfarwyddwr Nyrsio'r Uned

**Dyddiad:** 21/03/2017

**Arolygiad Ysbyty:** Cynllun Gwella

**Ysbyty:** Tywysoges Cymru

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Safon	Camau gan y Bwrdd Iechyd	S C
<b>CAMAU SICRWYDD AR UNWAITH</b>				
Dim camau sicrwydd ar unwaith yn ofynnol.				
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
9	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau i sicrhau y gall cleifion aros a derbyn gofal mewn mannau priodol i hybu eu preifatrwydd, eu hurddas a'u diogelwch.	4.1 a 2.1	Mae Uned Ddarparu Ysbyty Tywysoges Cymru a'r Bwrdd Gofal Heb ei Drefnu yn bwrw ymlaen â rhaglen waith sefydledig gyda'r amcan o wella llif cleifion ym mhob arbenigedd i leddfu gorlenwi yn yr unedau asesu. Mae'r cynlluniau'n cynnwys datblygu'r Uned Asesu Llawfeddygol i dderbyn derbyniadau gan feddygon teulu yn uniongyrchol, gan osgoi'r Adran Achosion Brys.	C U
9	Dylai'r bwrdd iechyd ymchwilio a chyflwyno ffyrdd o wella lefel y preifatrwydd i gleifion sy'n mewngofnodi yn nerbynfa'r Adran Achosion Brys.	4.1	Mae cynnig datblygu cyfalaf wedi cael ei gwblhau gan dîm yr Adran Achosion Brys. Mae trafodaethau'n parhau ynghylch y ddarpariaeth o gyllid cyfalaf i addasu'r dderbynfa i wella gwelededd a chynyddu preifatrwydd i gleifion.	C Y
10	Dylai'r bwrdd iechyd barhau gyda threfniadau i gynorthwyo'r staff i fynychu hyfforddiant ar ddefnyddio iaith arwyddion a chyflwyno trefniadau i gynorthwyo ymhellach y cleifion hynny ag anghenion ychwanegol i dderbyn gwybodaeth ac ymateb iddi.	4.1	Parhau i gynnig hyfforddiant i'r holl staff ar y defnydd o iaith arwyddion a chyfathrebu â chleifion ag anghenion ychwanegol.  Cyflwynwyd adran i Lawlyfr y Dderbynfa i gynorthwyo staff wrth gael gafael ar wybodaeth a chymorth wrth ymdrin â chlaf ag anghenion cyfathrebu ychwanegol.	R G G G Y



Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Safon	Camau gan y Bwrdd Iechyd	S C
12	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu diweddariad ar y cynlluniau i wella llif cleifion.	5.1	Gweler uchod	C Y
<b>Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol</b>				
15	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau i hybu llesiant cleifion sy'n aros yn y brif ystafell aros a'r ystafell aros ychwanegol.	2.1	<p>Mae cynnig datblygu cyfalaf wedi cael ei gwblhau gan dîm yr Adran Achosion Brys. Mae trafodaethau'n parhau ynghylch y ddarpariaeth o gyllid cyfalaf i addasu'r dderbynfa i wella gwelededd cleifion yn y brif ystafell aros.</p> <p>Mae gwybodaeth i gleifion am uwchgyfeirio pryderon wedi cael ei hailddarparu yn yr ystafell aros ychwanegol.</p> <p>Bydd dogfen Swyddogaethau a Chyfrifoldeb yn cael ei hailgyflwyno i'r staff. Mae hon yn cynnwys datganiad eglur mai cyfrifoldeb y nyrs gyfrifol yw gofal cleifion yn yr ystafell aros ychwanegol.</p> <p>Mae cyfweiliadau'n cael eu cynnal ar 31 Mawrth 2017 i benodi cynorthwyr Adran Achosion Brys Band 3 cyfwerth ag amser llawn 2.8 ychwanegol. Bydd yr aelodau staff hyn yn cynorthwyo i ofalu am gleifion yn yr ystafell aros ychwanegol.</p> <p>Mae'r cynnig cyfalaf a nodir uchod yn cynnwys ail-ddylunio'r ystafell aros ychwanegol i sicrhau mai dim ond cleifion â mân-anafiadau (dibyniaeth isel) sy'n dychwelyd o gael archwiliad pelydr-X sy'n</p>	C y  N  N  N  C y

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Safon	Camau gan y Bwrdd Iechyd	S C
			defnyddio'r ystafell hon.	
16	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau presennol i ymwelwyr gael mynediad at yr ysbyty yn y nos a gwneud trefniadau priodol i hybu diogelwch a phreifatrwydd cleifion.	2.1	Tîm Gweithrediadau Ysbyty Tywysoges Cymru i ddatblygu cynnig amgen ar gyfer mynediad at y safle yn ystod cyfnodau y tu allan i oriau.	R G G
18	Dylai'r bwrdd iechyd adolygu amllder glanhau'r toiledau i leihau croes-heintio a hybu llesiant cleifion.	2.4	Mae proses wirio ar waith. Mae taflen wirio â phedwar gofod y diwrnod wedi ei harddangos yn y toiled.  Ceir dwy shifft cadw tŷ ar y rhestr bob diwrnod sy'n cyflawni'r dasg hon.	R G G
20	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC am y cynnydd o ran gosod peiriant golchi llestri sy'n gweithio.	2.5	Nid oedd hon yn broblem i'r Adran Achosion Brys. Mae'n bosibl y nodwyd bod hon yn broblem ar Ward 10. Mae'r prif beiriant golchi llestri arlwygo yn cael ei newid. Bwriedir cyflawni'r gwaith ar 1 Mai 2017.	Y
23	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd adolygu'r cymorth fferyllol i'r Adran Achosion Brys a chymryd camau yn ôl yr angen i sicrhau bod hwn yn ddigonol.	2.6	Bydd hyn yn cael ei adolygu ar y cyd gan reolwr y gwasanaeth a'r adran fferylliaeth.	R G G G G u R F
23	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau priodol i fodloni ei hun bod staff meddygol sy'n gyfrifol am gwblhau asesiadau risg thromboproffylacsis yn gwneud hynny'n unol â pholisi'r bwrdd iechyd.	2.6 a 2.1	Bydd y Cyfarwyddwr Meddygol yn codi hyn mewn cyfarfodydd archwilio clinigol meddygol a llawfeddygol ac mewn cyfarfodydd staff meddygol iau.  Bydd y Cyfarwyddwr Meddygol yn gofyn am adolygiad archwilio tri mis o gydymffurfiad yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys.	Y M

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Safon	Camau gan y Bwrdd Iechyd	S C
<b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b>				
-	Nid oes angen cynllun gwella.	-		

### Cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd:

**Enw (llythrennau bras):** Debbie Bennion

**Teitl:** Cyfarwyddwr Nyrsio'r Uned

**Dyddiad:** 21 Mawrth 2017